**HYSBYSIAD O ORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257**
**A PHARAGRAFF 1 O ATODLEN 14**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(CAU LLWYBR TROED 58 MAESTEG A**
**DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 58 MAESTEG)**
**GORCHYMYN CAU A DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 3 2025**

Gwnaed y gorchymyn uchod ar 24/09/2025. Effaith y Gorchymyn fydd cau'r rhan honno o Lwybr Troed 58 Maesteg sy'n dechrau ym Mhwynt C (Cyfeirnod Grid: SS 8493 9169) ac sy'n parhau'n gyffredinol tua'r gogledd am 32 metr i Bwynt D (Cyfeirnod Grid: SS 8494 9172), yna'n parhau tua'r dwyrain / gogledd-ddwyrain am 70 metr i Bwynt E (Cyfeirnod Grid: SS 8500 9175) lle mae'n dod i ben, a dargyfeirio'r rhan honno o Lwybr Troed 58 sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184) ac sy'n parhau tua'r de / de-orllewin am oddeutu 51 metr i Bwynt B (Cyfeirnod Grid: SS 8494 9179) lle mae'n dod i ben yn y rhan newydd o'r llwybr troed sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184) ac sy'n parhau tua'r de / de-orllewin am 8 metr i Bwynt F (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184), yna'n parhau'n gyffredinol ar hyd llwybr sydd eisoes wedi'i adeiladu tua'r de / de-ddwyrain am tua 130 metr i gwrdd â'r llwybr troed mabwysiedig ym Mhwynt G (Cyfeirnod Grid: SS 8500 9172), fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Mae copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn y brif dderbynfa yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfeiriad isod o 8:30am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 8:30am tan 4:30pm ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim. Fel arall, mae copi o'r gorchymyn a'r map hefyd ar gael drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk / ffôn: 01656 642537, neu gellir ei archwilio ar-lein ar: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Gellir anfon neu gyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau ynghylch y gorchymyn yn ysgrifenedig at: K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod, a hynny dim hwyrach na **06/11/2025**. Nodwch y sail y mae wedi'i gwneud arni. Noder y gall y Cyngor ystyried pob sylw a dderbynnir yn gyhoeddus a bod cynnwys unrhyw sylw, ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Os na wneir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau o'r fath yn briodol, neu os tynnir unrhyw rai a wneir yn ôl, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gadarnhau'r gorchymyn fel gorchymyn diwrthwynebiad. Os anfonir y gorchymyn at Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, anfonir unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl gyda'r gorchymyn. Os oes gennych unrhyw anhawster i ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch ar ffurf arall – er enghraifft, print mwy o faint, sain, Braille neu ffacs – cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid (Ffôn: 01656 643643). Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

**DYDDIEDIG: 02/10/2025**

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.